CARERS Wales
the voice of carers

Tŷ'r Afon, Ynysbridge Court, Caerdydd CF15 9SS
Ffôn 029 2081 1370 Ffacs 029 2081 1575
info@carerswales.org www.carerswales.org

CYNHALWYR CYMRU
llais cynhalwyr

Strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y Degawd Nesaf: Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol

Mae Cynhalwyr Cymru'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r ddogfen bwysig hon o eiddo Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rydym yn pryderu nad yw'r ddogfen yn darparu'r fframwaith priodol ar gyfer sicrhau'r gwelliant angenrheidiol ym maes gofal cymdeithasol dros y degawd nesaf.

1. Cyflwyniad

Mae cynhalwyr yn darparu gofal di-dâl trwy ofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu bartner sâl, bregus neu anabl.

Mae dros 350,000 o gynhalwyr yng Nghymru. Mae eu cyfraniad di-dâl yn arbed o leiaf £3.5 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn.

Mae cynhalwyr yn rhoi cymaint i gymdeithas, ond o ganlyniad i'w gwaith yn gofalu am eraill, mae salwch, tlodi a gwahaniaethu yn rhan o'u profiad.

- mae'r gweithlu di-dâl hwn yn gyfrifol am ddarparu 70% o ofal cymunedol yng Nghymru.
- mae 90,000 o gynhalwyr yng Nghymru yn darparu mwy na 50 awr o ofal bob wythnos[1].
- mae llawer o gynhalwyr yn ei chael hi'n anodd byw bywydau normal - mae sawl peth mewn perygl, gan gynnwys eu cyfrifoldebau teuluol ehangach, eu gwaith, eu hunaniaeth eu hunain, ac amser i orffwys ac ymlacio.
- Mae iechyd llawer o gynhalwyr yn dioddef.[2]

Am Gynhalwyr Cymru

Mae Cynhalwyr Cymru yn sefydliad o gynhalwyr sy'n brwydro i ddod â'r anghyfiawnder hwn i ben. Rydym yn rhan o Carers UK.

2. Sylwadau Cyffredinol

Rydym am nodi'r pwyntiau canlynol am y strategaeth:

[1] Cyfrifiad 2001
[2] Arolwg Iechyd Cymru 2003/4: Iechyd Cynhalwyr

EUROPEAN UNION
European Social Fund

Mae Partneriaeth Datblygu Gweithredu dros Gynhalwyr a Chyflogaeth (ACE National) yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop dan Raglen Menter Gymunedol EQUAL.

ACE National
action for carers and employment
led by CARERS UK

Mae'r Carers National Association, yn masnachu fel Carers UK, wedi'i gofrestru yn Lloegr fel cwmni cyfyngedig gan warant rhif 864097
Rhif elusen gofrestredig 246329 Swyddfa gofrestredig Carers UK Ruth Pitter House 20/25 Glasshouse Yard Llundain EC1A 4JT

- Nid yw'n ddigon cadarn wrth gyflwyno gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl sy'n agored i niwed. Mae'n canolbwyntio ar ffiniau prosesau a gwaith proffesiynol.
- Mae'n rhy gul. Mae'n ymwneud â swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol yn bennaf yn hytrach na swyddogaeth ehangach gofal cymdeithasol.
- Nid yw'n rhoi digon o sylw i sut y gellir mynd ati i gefnogi cynhalwyr yn effeithiol.
- Nid yw'n trafod sut y gellir mynd i'r afael â'r ffaith nad yw gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gofal cymdeithasol ehangach yn derbyn digon o gyllid.

2.1 Cynhalwyr – Y "Pedwerydd Sector"

Mae Adolygiad Beecham wedi galw am gynnwys y trydydd sector yn fwy eang yng ngwaith y gwasanaethau cyhoeddus.

Ein dadl ni yw bod angen cynnwys cynhalwyr fel "pedwerydd sector" hanfodol. Dyma'r gweithlu hollbwysig, di-dâl sy'n darparu 70% o'r holl ofal cymdeithasol. Rhaid rhoi cydnabyddiaeth i gynhalwyr fel partneriaid allweddol a'u cefnogi'n llawn. Gallai cefnogi cynhalwyr fod yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni amcanion y ddogfen hon. Mae'r sylw prin a gaiff eu swyddogaeth yn wendid mawr yn y ddogfen. Pe bai canran fechan yn unig o gynhalwyr yn penderfynu stopio neu leihau'r cymorth a roddant i bobl ag anghenion gofal lefel uchel, byddai'r system mewn perygl o fethu'n llwyr.

Prin fod adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu ymdopi â'u dyletswyddau statudol cyfredol i ddiogelu'r plant a'r oedolion hynny sydd fwyaf agored i niwed. Mae angen newid anferthol mewn agweddau ac adnoddau os ydym am gefnu ar reoli argyfwng a symud tuag at y weledigaeth a amlinellir yn y papur hwn. Mae cynhalwyr yn rhan o'r ateb, nid yn fwrn ychwanegol, ac mae angen eu hystyried yn y goleuni hwnnw.

Mae'r Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Cynhalwyr i'w chyhoeddi cyn bo hir. Nid yw hon yn cynnig unrhyw adnoddau arwyddocaol newydd, ac ni all wella'r cymorth sydd ar gael i gynhalwyr yn sylweddol. O ganlyniad, mae angen i'r strategaeth hon ymdrin yn benodol â swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol wrth fapio a diwallu anghenion cynhalwyr i'w galluogi i barhau i ofalu am eraill.

Mae Beecham hefyd yn dadlau bod angen i'r agenda ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ymwneud â darparu gwasanaethau o ansawdd da sydd wedi'u teilwra i anghenion unigol. Rhaid i hyn gynnwys anghenion cynhalwyr.

2.2 Bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer newid sylweddol

Nid yw'r ddogfen yn amlinellu sut y gellir rhoi'r newidiadau sylweddol angenrheidiol ar waith yn ymarferol gyda'r adnoddau prin iawn sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae cwmpas y strategaeth yn gyfyng, ac mae'n canolbwyntio ar swyddogaeth adrannau gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol cymwys. Mae rhannau eraill o'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol a'r holl ddarparwyr anstatudol hefyd yn allweddol wrth wella'r cymorth a roddir i bobl mewn angen. Mae angen cydnabod hyn yn llawnach a mynd ati i integreiddio eu hanghenion i'r cynllun cyffredinol.

Mae'r Strategaeth wedi osgoi trafod yr angen am fuddsoddi sylweddol ym maes gofal cymdeithasol. Ni ellir sicrhau gofal cymdeithasol hygyrch, personol o ansawdd uchel heb fuddsoddi o'r fath.

Mae sylwadau pellach ar y cwestiynau penodol sydd ar y ffurflen Ymgynghori wedi'u cynnwys isod. Nid ydym wedi ateb pob un o'r cwestiynau ymgynghori.
Yn gywir,

Roz Williamson - Cyfarwyddwraig

EUROPEAN UNION
European Social Fund

CARERS Wales
the voice of carers

Mae Partneriaeth Datblygu Gweithredu dros Gynhalwyr a Chyflogaeth (ACE NATIONAL) yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop dan Raglen Menter Gymunedol EQUAL .

Mae'r Carers National Association, yn masnachu fel Carers UK, wedi'i gofrestru yn Lloegr fel cwmni cyfyngedig gan warant rhif 864097
Rhif elusen gofrestredig 246329 Swyddfa gofrestredig Carers UK Ruth Pitter House 20/25 Glasshouse Yard Llundain EC1A 4JT

BYWYDAU BODLON, CYMUNEDAU CEFNOGOL

Ffurflen Ymgynghori

RHAGAIR
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y materion a godwyd? - **OES**

Rydym am nodi'r pwyntiau canlynol am y strategaeth:

- Nid yw'n ddigon cadarn wrth gyflwyno gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl sy'n agored i niwed. Mae'n canolbwyntio ar ffiniau prosesau a gwaith proffesiynol.
- Mae'n rhy gul. Mae'n ymwneud â swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol yn bennaf yn hytrach na swyddogaeth ehangach gofal cymdeithasol.
- Nid yw'n rhoi digon o sylw i sut y gellir mynd ati i gefnogi cynhalwyr yn effeithiol.
- Nid yw'n trafod sut y gellir mynd i'r afael â'r ffaith nad yw gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gofal cymdeithasol ehangach yn derbyn digon o gyllid.

Cynnig 1

Rydym yn cytuno bod angen ailstrwythuro gwasanaethau er mwyn blaenoriaethu'r angen i roi cymorth yn gynharach, yn arbennig os yw hyn yn golygu bod cynhalwyr yn gallu cynnal eu hiechyd a'u bywydau eu hunain. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo bod y ddogfen yn amlinellu cynllun ymarferol ar sut i gyflawni hyn.

Hyd yn oed os yw'r ymyriad cynnar yn effeithiol yn yr hirdymor, bydd yr anghenion cymorth dwys sydd eisoes yn bod yn parhau am gryn amser, a hwyrach yn cynyddu wrth i bobl h□n fyw'n hirach gydag anghenion cymhleth. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol eisoes yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol tuag at y gr□p hwn. Bydd y gwaith o wella gwasanaethau i'r grwpiau hyn a datblygu modelau gofal newydd yn anodd tu hwnt. Mae adnoddau'n brin iawn ar hyn o bryd, ac mae problemau mawr yn bodoli o ran denu a chadw'r gweithlu sydd ei angen i ddarparu gofal. Hwyrach y bydd ymrwymiad mwy sylweddol i gefnogi cynhalwyr, yn arbennig y rhai sy'n gofalu am bobl ag anghenion hirdymor, yn ddull effeithiol o gyflawni amcanion y cynllun hwn.

Cynnig 2

Rydym yn cydnabod mai llywodraeth leol fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol yn y tymor byr. Fodd bynnag, nid ydym wedi'n hargyhoeddi mai dyma'r model gorau. Mae'r hollt barhaus rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn peri problemau go iawn i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd. Mae angen trafod modelau eraill os ydym am fynd ati i roi'r newidiadau radical angenrheidiol ar waith.

Cynnig 3

Mae model "economi gymysg" yn un ddymunol a pharhaol. Mae angen cydnabod cynhalwyr fel unigolion sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr economi hon, a dylid eu cefnogi'n llawn er mwyn iddynt barhau i fod yn ganolog i ofal cymunedol.

Nid yw gwasanaethau cyfredol, boed yn rhai sydd wedi'u prynu neu wedi'u darparu'n uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol, yn diwallu anghenion llawer o bobl sydd angen cymorth. Mae angen gwasanaethau mwy hyblyg a fforddiadwy o ansawdd uchel er mwyn gwireddu'r freuddwyd o sicrhau "bywydau bodlon".

Cynnig 4

Mae gan weithwyr cymdeithasol cymwys sgiliau gwerthfawr sy'n haeddu cydnabyddiaeth briodol. Gall y sgiliau penodol hyn fod yn hollbwysig wrth weithio gyda grwpiau penodol fel plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd, ac oedolion sy'n agored iawn i niwed. Fodd bynnag, mae'n rhaid cynnwys llawer o bobl o gefndiroedd proffesiynol gwahanol er mwyn cynnal a gwella annibyniaeth oedolion sy'n byw yn y gymuned. Bydd angen i adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol gydnabod, datblygu a buddsoddi yn sgiliau rhannau eraill o'r gweithlu, gan gynnwys cynhalwyr, sy'n weithlu mawr, di-dâl a hanfodol.

PENNOD 1

1. Ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru? - **NAC YDYN**

2. Oes angen ei chryfhau neu ei diwygio mewn unrhyw ffordd? - **OES**

Mae'r weledigaeth a amlinellir yn cael ei diffinio gan ofynion darparwyr gwasanaethau ac yn canolbwyntio ar brosesau. Nid yw'n cael ei harwain gan ddefnyddwyr. Mae'n canolbwyntio ar strwythur, swyddogaethau a ffiniau proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol oddi fewn i lywodraeth leol yn hytrach nag ar wella canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio neu angen y gwasanaethau. Ni roddir digon o sylw i'r swyddogaeth statudol. Nid yw diben sylfaenol gwasanaethau cymdeithasol, h.y. diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed a gwella eu bywydau, yn ganolog i'r weledigaeth na'r cynllun gwaith. Mae hyn yn arwain at syniadau afrealistig o'r hyn y gellir ei gyflawni.

PENNOD 2

1. Ydyn ni wedi nodi'r holl heriau a chyfleoedd allweddol? - **NADDO**

2. Oes yna rai eraill y dylem eu hychwanegu neu ganolbwyntio mwy arnynt? - **OES**

a) Yr her allweddol sydd heb dderbyn sylw yw'r angen am adnoddau ychwanegol sylweddol ar gyfer gofal cymdeithasol.

Ar hyn o bryd nid yw Gwasanaethau Cyhoeddus yn diwallu anghenion llawer o bobl sy'n agored i niwed ac nid ydynt yn ymdopi'n dda â'r pwysau o gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Ni fydd modd ail-gyflunio blaenoriaethau i ddiwallu anghenion gofal lefel is a gweithredu gweddill yr agenda yn y ddogfen hon heb gyllid ychwanegol. Ni fydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu gwella a darparu mwy o wasanaethau uniongyrchol neu gomisiynu rhai newydd. Ni fydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu comisiynu gwasanaethau newydd a mwy effeithiol gan sefydliadau preifat neu ddi-elw oni bai bod adnoddau ychwanegol ar gael. Byddai'r gallu i wneud ymrwymiadau contract / cyllido mwy hirdymor hefyd yn helpu i ddatblygu gwasanaethau.

b) Mae angen rhoi mwy o sylw i effaith y newidiadau demograffig disgwyliedig.

Nid yn unig y bydd yna fwy o bobl gyda salwch ac anabledd cyfyngus hirdymor yn y dyfodol, ond bydd mwy o bobl yn byw'n hirach gyda phroblemau lluosog a chymhleth. Bydd hyn ynddo ei hun yn gryn her. Mae hefyd yn debygol iawn na fydd gwasanaethau cymdeithasol yn gallu dibynnu ar gynhalwyr teuluol i roi'r un gyfran o ofal (70% ar hyn o bryd). Ar hyn o bryd, pobl rhwng 45 – 64 oed yw'r prif grŵp o gynhalwyr. Mae'r grŵp oedran hwn dan bwysau ariannol mawr i barhau i wneud gwaith am dâl. Mae hyn yn debygol o barhau dros y ddeng mlynedd nesaf, ac mae'r anawsterau o ran cyfuno gwaith am dâl a'u swyddogaeth gofal yn debygol o olygu na fyddant yn gallu darparu gofal i'r un graddau yn y dyfodol. Bydd hyd yn oed gostyngiad bach yng nghyfraniad y "gweithlu" di-dâl hwn yn rhoi pwysau eithafol ar system sydd eisoes yn cael trafferth ymdopi.

c) Parhau'r Cysylltiad â Llywodraeth Leol

Nid yw'r achos dros gadw gwasanaethau cymdeithasol dan reolaeth 22 awdurdod lleol ar wahân wedi ein hargyhoeddi, nac ychwaith y ddadl y bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gwahanol gyfyngiadau o ran cyllidebau a chyfrifoldebau llywodraeth leol ac iechyd yn cael effaith sylfaenol ar y ffordd y darperir gwasanaethau. Efallai y gellid datblygu modelau gwahanol a fyddai'n galluogi cynllunio a chomisiynu mwy canolig tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau'n lleol.

d) Hwyrach y bydd taliadau uniongyrchol, o'u hyrwyddo a'u defnyddio'n effeithiol, yn gyfle i ail-gyflunio rhai gwasanaethau mewn ffordd gadarnhaol.

PENNOD 3

5. Ydych chi'n cytuno â'n disgrifiad o'r sefyllfa yr ydym am fod ynddi yn 2016?

Ar y cyfan YDYN – ond nid yw'r disgrifiad yn canolbwyntio digon ar swyddogaeth graidd gwasanaethau cymdeithasol i ddiogelu a diwallu anghenion y plant ac oedolion mwyaf agored i niwed.

6. Hoffech chi argymell set o ganlyniadau gwahanol?

Un elfen bwysig sydd ar goll yw cynllun i ddatblygu swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol wrth ddarparu cefnogaeth gychwynnol a gwybodaeth o ansawdd da i gynorthwyo'r nifer fawr o bobl sydd ag anghenion gofal ond sy'n fodlon chwilio a thalu am y gwasanaethau eu hunain.

PENNOD 4

7. Ydyn ni wedi nodi'r holl elfennau allweddol i'n galluogi i roi'n gweledigaeth ar waith?

Os nad yw'r strategaeth ddiwygiedig ar gyfer cynhalwyr yn llwyddo i gynnig dull newydd a chynaliadwy o gefnogi cynhalwyr ledled Cymru, bydd angen i'r ddogfen hon ystyried sut y gall gwasanaethau cymdeithasol ymdopi â newid negyddol bach yng nghydbwysedd y gofal a ddarperir gan aelodau'r teulu a'r gofal a ddarperir gan wasanaethau cymdeithasol.

8. A fydd y camau gweithredu arfaethedig yn ddigon?

NA FYDDANT – Mae angen adnoddau newydd, yn arbennig os mai'r nod yw cynyddu nifer y gweithwyr gofal cymdeithasol a gwella eu hansawdd a darparu gwasanaethau ar sail anghenion defnyddwyr.

9. A oes mwy y gellid ei wneud i hyrwyddo a chefnogi comisiynu a darparu gwasanaethau ar y cyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn benodol? **OES**

- rhannu cyllidebau ac atebolrwydd
- canolbwyntio llai ar ffiniau proffesiynol a ffiniau gwasanaethau a mwy ar ddiwallu anghenion y bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau.

10. Pa elfennau y dylid canolbwyntio arnyn nhw yn ystod 3 blynedd gyntaf y strategaeth?

Cefnogi cynhalwyr; comisiynu; y gweithlu

PENNOD 5

11. Hoffech chi wneud sylw ar y broses weithredu a amlinellir yma?

-

12. Sut allwn ni sicrhau ein bod yn cynnwys pawb sydd â chyfraniad allweddol i'w wneud?

-

13. Ydyn ni wedi nodi'r meysydd sydd angen eu blaenoriaethu yn ystod 3 blynedd gyntaf y Strategaeth yn gywir yn y Bennod hon? Os nad ydyn ni, beth sydd ar goll? Beth ellid ei ohirio i gyfnod diweddarach yn y cylch datblygu?

-

CWESTIYNAU YMGYNGHORI CYFFREDINOL

14. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am sut y gellir ymgysylltu â defnyddwyr, cynhalwyr, cymunedau, gweithwyr a rhanddeiliaid eraill yn y newid diwylliant sydd ei angen i weithredu'r weledigaeth hon ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol y dyfodol?

Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud.

15. Oes gennych chi unrhyw argymhellion ynglŷn â sut i fynd ati i roi'r camau gweithredu a amlinellir yn y ddogfen hon ar waith yn effeithiol?

-

16. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?

Fel arfer rydym yn cyhoeddi'r sylwadau a dderbynnir gennym. Ticiwch y bocs canlynol os ydych chi'n **cytuno** i ni gyhoeddi'ch sylwadau. ☑

Enw: Roz Williamson

Teitl eich swydd (os yn briodol): Cyfarwyddwraig

Cyfeiriad: Cynhalwyr Cymru,
Tŷ'r Afon,
Ynysbridge Court,
Caerdydd CF15 9SS.

Mae Partneriaeth Datblygu Gweithredu dros Gynhalwyr a Chyflogaeth (ACE NATIONAL) yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop dan Raglen Menter Gymunedol EQUAL .

Mae'r Carers National Association, yn masnachu fel Carers UK, wedi'i gofrestru yn Lloegr fel cwmni cyfyngedig gan warant rhif 864097
Rhif elusen gofrestredig 246329 Swyddfa gofrestredig Carers UK Ruth Pitter House 20/25 Glasshouse Yard Llundain EC1A 4JT